DILYN BRUNEL.

Gadewais Sir Gar a'm cartre' clyd
I grwydro'r wlad a gweld y byd
(Ac yn) nhre Llanelli cwrddais y dyn
Wnaeth newid cwrs fy mywyd.

Ce's gaib a rhaw a mandrel main
I dorri'r ffordd trwy'r gwrysg a'r draen
A gosod hewl i gario'r traen
I'm cludo oddi yma.

Croesais y Llwchwr, y Tawe a'r Nedd
Gwelais y wlad yn newid ei gwedd
Ac yn Aberafan, Penderyn a'i fedd
Trodd y ffordd tua'r gogledd.

Gosodwyd y cledrau ar ochr y bryn
Cul oedd cymoedd yr ardal hyn
Twnelu a phontio tröydd tynn
Ymdroellog Afon Afan.

Ac yn y dyffryn hyfryd gwyn
Mae gen i gartre' erbyn hyn
Ffarm a chaeau ar y bryn
Ar lannau Afon Afan.

Dilyn yr afon i'r mynydd o'r môr
Llorio y goedwig a phontio y dŵr
Canu wrth weithio i gynnal y ffydd
Wrth weithio ar y rheilffordd.

©Geraint Griffiths 2000